S4C

30.06.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Cŵn Ceredigion sy'n cael sylw Y Fets

Cŵn ardal Aberystwyth a thu hwnt sy'n cael rhan fwyaf o'r sylw yn y rhifyn diweddaraf yn y gyfres boblogaidd **Y Fets** ar S4C.

Cŵn bach fel y Dachsunds Bydi ac Eddie sy'n poeni wrth i'w perchnogion eu gadael yn y tŷ ar ben eu hunain yn ystod y dydd a chŵn mawr fel Sledge yr Old English Sheepdog sydd â lwmpyn amheus ar ei ben.

Cawn gwrdd â phob math o gŵn eraill yn syrjeri Ystwyth Fets yn Llanbadarn gan gynnwys Nel Gibson sy'n dioddef o *phantom pregnancy* a Macs y ci defaid ifanc sydd wedi cael ei fwrw gan gar ac wedi datgymalu ei glun.

Mae un o'r fets Phil Thomas yn cynnig cyngor am ffyrdd i stopio gŵn poeni tra bod eu perchnogion allan o'r tŷ.

Meddai Phil: "Mae 'na lot o gŵn wedi cael eu prynu yn ystod cyfnod clo, felly maen nhw'n gyfarwydd cael bobl adre gyda nhw. Wedyn mae e falle mynd i fod yn broblem pan mae pobl yn mynd yn ôl i'r gwaith.

"Un peth y'ch chi'n gallu gwneud sydd yn help weithiau yw cadw'r radio arno gyda rhyw gerddoriaeth glasurol neu ryw siarad neu rywbeth yn y cefndir. Mae hefyd pethau eraill gallwch chi wneud fel gadael rhyw ddilledyn sydd heb ei olchi er mwyn iddyn nhw gael sawr y person ond hefyd maen na *plug-ins* sy'n rhyddhau *pheromones* sy'n gwneud i'r ci deimlo fel petai ei fam e dal o gwmpas."

Y ddarlledwraig Sara Gibson yw perchennog Nel ac mae hi'n poeni bod Nel yn dioddef gyda *phantom pregnancy* pob chwe mis ac yn mynd yn eithaf sâl. Mae'r fet Iwan Lewis yn mynd trwy'r opsiynau gyda Sara a phenderfynwyd mai ysbaddu Nel drwy lawdriniaeth dwll clo byddai orau - ond bydd rhaid i Nel golli pwysau er mwyn i'r driniaeth yma llwyddo!

"Dim mwy o 'treats' i Nel! Ond 'da ni'n hapus - dywedodd Iwan fod ysbaddu yn syniad da a bod e'n beth da i Nel," meddai Sara. "Mae'n saffach iddi hi ac i ni hefyd - bydd dim rhaid i ni boeni amdani."

Iwan hefyd sy'n disgwyl ar ôl Macs y ci defaid ac yn llwyddo trwsio'i glun yn syrjeri Ystwyth Fets ac mae llawenydd mawr wrth i Macs fynd adre i fferm ei berchennog a chael ei sbwylio'n rhacs.

Mae milfeddygon Ystwyth Fets yn gweithio'n galed i geisio gwella bob anifail sy'n dod trwy eu drysau ond yn anffodus dydyn nhw ddim yn gallu achub bob un.

Clywn hanes trist Paddy y ci defaid 12 mlwydd oed sydd wedi dod yr holl ffordd o Ddolgellau gyda'i berchennog Kevin.

Daeth Paddy mewn i'r feddygfa gyda phroblem gyda'i llinyn y cruciate*.* Ond wrth i'r fet Kate Sullivan weithio ar Paddy, fe ddaeth i'r amlwg bod problemau eraill gan y ci bach sef tiwmor yn ei asgwrn oedd yn debygol o ledaenu i'r ysgyfaint dros y misoedd nesaf.

Mae'r newyddion yn torri calon Kevin sy'n gorfod gwneud penderfyniad anodd iawn ynglŷn â'r peth gorau i wneud er lles ei hen ffrind.

Hefyd yn y rhaglen hon, rydym yn gweld y fet Dafydd Jones yn mynd yn ôl i'r brifysgol - ond fel darlithydd y tro hwn wrth iddo rannu ei brofiadau gyda myfyrwyr yn yr ysgol filfeddygol newydd sbon ym Mhrifysgol Aberystwyth - yr un cyntaf yng Nghymru.

Mae Phil yn brysur iawn hefyd yn nhymor wyna ac yn gorfod trin oen sydd wedi anafu ei goes ac un gyda llygad poenus.

Beth fydd hanes yr anifeiliaid y tro hwn? Gwyliwch y cyfan ar **Y Fets** S4C nos Iau 14 Gorffennaf neu ddal i fyny gyda'r gyfres gyfan ar S4C Clic.

**Y Fets**
**Nos Iau 14 Gorffennaf 9.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C**

30.06.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Ceredigion canines are top dogs on Y Fets

Dogs from Aberystwyth and beyond get lots of the attention this week on the popular S4C series **Y Fets** (The Vets).

Little dogs like Dachsunds Bydi and Eddie who become anxious when they are left home alone during the daytime to big dogs like Sledge the Old English Sheepdog who has a suspicious lump on his head.

We meet all sorts of other dogs in the Ystwyth Vets surgery in Llanbadarn including Nel Gibson who suffers from phantom pregnancies and Macs the young sheepdog who has been run over by a car and dislocated his hip.

Vet Phil Thomas offers some general advice on ways to stop dogs getting anxious when their owners are out of the house.

Phil said: "A lot of dogs were bought during lockdown, so they are used to having people at home with them. So it might become a problem when people go back to work.

"One thing you can do which can help is to keep the radio on with some classical music or chatting in the background. There are other things you can do like leaving an unwashed item of clothing so they can have the scent of the person or a plug-in which releases pheromones which makes them think that their mother is still about."

Broadcaster Sara Gibson is Nel's owner and she worries that Nel suffers a phantom pregnancy every six months and becomes quite ill. Vet Iwan Lewis goes through the options with Sara and it is decided that spaying Nel with keyhole surgery would be the best thing – but Nel must lose some weight for the treatment to succeed!

"No more treats for Nel! But we are happy – Iwan said that spaying was a good idea and that it would be a good thing for Nel," said Sara. "It is safer for her and for us too – we won't need to worry about her."

Iwan takes care of Macs the sheepdog too and succeeds in mending his hip and there is great happiness as Macs goes home to his owner's farm and is spoiled rotten!

The vets at Ystwyth Vets work hard to return to health every animal that comes through their doors but unfortunately they aren't able to save every one.

We hear the sad story of Paddy, a 12 year-old sheepdog who has been brought all the way from Dolgellau by his owner Kevin.

Paddy came into the surgery for treatment on his cruciate ligament. But as vet Kate Sullivan worked on Paddy she noticed that the dog had other problems – a tumour in his bone which would spread to his lungs over the following months.

The news breaks Kevin's heart and he must make a very difficult decision about what to do for the best for his old friend.

Also in this programme, we see vet Dafydd Jones going back to university – but as a lecturer this time as he shares his experiences of being a vet with the students at the brand new veterinary school in Aberystwyth – the first in Wales.

Phil is very busy too in lambing season and has to treat one lamb which has hurt it's leg and another with a sore eye.

How will things turn out for the animals this time? Find out in **Y Fets** on Thursday 14 July on S4C or catch up with the entire series which is now available on S4C Clic.

**Y Fets**
**Thursday 14 July 9.00, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Boom Cymru production for S4C**